Bwrdd yr Iaith Gymraeg

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Does dim dwywaith y byddai'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yn gwella'r ddarpariaeth gyhoeddus a gynigir i blant yn y Gymraeg. Mae angen cydnabod, a llongyfarch, S4C am fuddsoddi cymaint mewn rhaglenni gwreiddiol i blant ar adeg pan fo gwariant yn dynn, a buddsoddi mewn rhaglenni plant yn gostwng. Ond, wrth gwrs, nid yw sicrhau gwasanaeth cyfrwng Cymraeg yn ddigon ynddo'i hun. Byddai'n rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddeniadol ac yn apelgar o ran cynnwys a diwyg, yn ddifyr, yn amrywiol ac o safon uchel. Heb hyn, gallem fod mewn sefyllfa waeth na'r presennol wrth i'r gwasanaeth newydd gael ei wrthod neu ei anwybyddu.

Onid oes angen hefyd fwy o ymchwil i brofi ar sail mwy gwyddonol a mesuradwy y byddai galw am y gwasanaeth pe bai'n dod ar gael? Yn ein barn ni, mae hyn yn greiddiol i lwyddiant yr holl fenter.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cynnal nifer o brosiectau ymchwil yn ddiweddar sy'n cynnwys argymhellion polisi ar sut i annog mwy o bobi ifanc i siarad Cymraeg, a sut i annog trosglwyddiad iaith yn y cartref.

Roedd ymchwil y Bwrdd i rwydweithiau pobl ifanc a defnydd iaith yn pwysleisio'r ffaith bod darparu cyfleon i pobl ifanc ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol yn hollbwysig pan yn ceisio cynyddu defnydd o'r iaith. Roedd ymchwil y Bwrdd i drosglwyddiad iaith yn y cartref yn argymell bod gan y teledu rôl i'w chwarae i annog trosglwyddo'r Gymraeg, yn enwedig yn y cartrefi hynny lle nad yw'r ddau riant yn siarad Cymraeg. Dywed yr ymchwil bod rhaglenni Cymraeg o safon uchel yn gallu bod o gymorth wrth annog rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.

O dderbyn tystiolaeth am y galw, mae'r amseru yn ymddangos yn iawn i ni. O ran cyllid, rhaid sicrhau fod cyllid digonol ar gael, gan mai dyma'r unig ddarparydd.

2. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

O ran oriau darlledu, mae angen ystyried yn fanwl beth fydd yr arlwy a pha bryd y mae'n cael ei ddarlledu, yn enwedig ar gyfer y grŵp oedran pobl ifanc yn eu harddegau. Yn gyffredinol, mae'r grŵp yma yn gwylio llai o deledu nag y buon nhw yn y gorffennol a hefyd yn gwylio mewn ffyrdd gwahanol e.e. ar gyfrifiadur neu liniadur. Mae hi hefyd yn wybyddus bod pobl ifanc y grŵp yma yn hoff o raglenni sydd heb eu targedu yn benodol ar eu cyfer e.e. operâu sebon, dramâu cyfres Americanaidd (e.e. 'Lost', 'The O.C.') 0 ran arlwy Gymraeg mae cyfresi fel 'Con Passionate' a rhaglenni taith Dewi Pws wedi profi'n boblogaidd gyda nifer yn y grŵp oedran yma. O ran darparu sianel ar gyfer plant a phobl ifanc y cwestiwn yw a fydd rhaglenni tebyg i rhai a amlinellir uchod yn cael eu dangos ar y sianel newydd hefyd? Faint o draws-hyrwyddo fydd yna ar y sianel newydd i arlwy S4C?

Cytunwn fod angen ffin bendant rhwng y ddarpariaeth i blant hŷn a'r ddarpariaeth i bobi ifainc yn eu harddegau. Mae'r patrwm sydd wedi ei nodi yn ymddangos yn synhwyrol. Dylid darlledu cymaint o oriau ag sy'n bosib.

3. Yn was eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Y nodweddion allweddol pwysicaf fyddai gwreiddioldeb cynnwys, brandio a marchnata effeithion gan fanteisio ar arbenigedd partneriaid allweddol e.e. yr Urdd, Mentrau Iaith, CFfI; Ysgolion.

Mae'n rhaid i wasanaeth yn y Gymraeg fod cystal â'r gwasanaethau plant eraill a ddarlledir os yw arferion gwylio i gaei eu newid. O ran y rhaglenni meithrin, yn arbennig, mae angen cadw mewn cof a darparu ar gyfer rhieni dwyieithog sydd yn gwylio rhaglenni Cymraeg gyda'u plant. Mae'n bwysig bod cynulleidfa ieithyddol gymysg fel hyn yn cael ei denu os ydym am greu cynulleidfa ar gyfer S4C yn y dyfodol.

Mae'r nodweddion a ddisgrifir yn y ddogfen yn cloriannu'r anghenion yn dda, ond mae angen gofal wrth ddarparu i bobl ifainc yn eu harddegau; maent yn gyfarwydd a gwylio rhaglenni soffistigedig yn Saesneg a hawdd byddai creu cymhariaeth anffafriol.

Yn ogystal, does dim sôn yn y ddogfen ar sut mae S4C yn bwriadu mynd ati i farchnata'r gwasanaeth newydd yma i blant. Mae'n angenrheidiol i lwyddiant hir dymor y gwasanaeth bod y marchnata yr un mor ddyfeisgar a chreadigol â'r gwasanaeth a gynigir. Hynny yw, mae angen bod yn feiddgar a pheidio bod ofn cymryd risg ystyriol o ran y dulliau marchnata a ddefnyddir i dargedu'r gynulleidfa o ystyried eu bod nhw yn grŵp oedran sydd mor effro i negeseuon marchnata a'r technegau a ddefnyddir i drosglwyddo'r negeseuon.

4. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Ar hyd a lled y byd mae yna ddyhead i sicrhau bod dinasyddion yn cael cyfle i weld a chlywed trafodion seneddol ar deledu a radio. Mae hyn yn cael ei ystyried yn rhan allweddol o'r broses ddemocrataidd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae gwledydd fel Trinidad a Tobago, Fiji a Zambia wedi symud tuag at ddarparu darlledu byw o drafodion seneddol. Roedd penderfyniad S4C a'r BBC yn 1999 i greu partneriaeth ddarlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn un unigryw a blaengar. Byddai colli'r gwasanaeth hwn yn gam yn ôl, yn enwedig ar gyfnod pan fo'r Cynulliad yn cael mwy o bwerau ac yn awyddus i weld dinasyddion Cymru yn ymwneud â'i waith.

Mae'r opsiynau yn mharagraff 4 yn cael eu cyflwyno fel dewis rhwng cadw'r darlledu o'r Cynulliad a cholli elfen o'r gwasanaeth plant, neu golli'r gwasanaeth Cynulliad yn llwyr. Tybed a oes yna opsiwn arall sydd heb ei amlinellu yn y ddogfen ond a allai fod yn bosibilrwydd?

Ym mharagraff 5 mae sôn am barhau i ddarparu gwasanaeth estynedig o ddigwyddiadau cenedlaethol e.e. Y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod ar y gofod sy'n cael ei ddefnyddio gan S4C2 drwy ddefnyddio gwasanaeth botwm coch. Os yw hi'n bosibl yn dechnegol i sianel i blant a gwasanaethau ychwanegol gydredeg yn ystod y digwyddiadau cenedlaethol pam na ellir cydredeg gwasanaeth y Cynulliad ochr yn ochr â sianel blant, o gofio nad yw'r Cynulliad yn eistedd yn ystod y gwyliau cenedlaethol.

O ran opsiwn 2 (para 4.3.2) mae'n annhebyg y byddai darparwr masnachol yn gweld gwerth cynnig cludiant ar gyfer y gwasanaeth o'r Cynulliad. Mae'n bosib y gallai'r BBC ddefnyddio rhan o'r gofod sydd ganddyn nhw ar Mux B i gludo'r gwasanaeth.

Byddai cael toriad rhwng 9.00 y bore a 6.00 yr hwyr o ddydd Mawrth i ddydd Iau yn niweidiol i ffigurau gwylio, yn enwedig yr oriau yn syth ar ôl ysgol, oherwydd byddai plant yn cyfarwyddo gyda gwylio sianel arall (Saesneg) ar y tri diwrnod hwn ac efallai ddim yn troi at y sianel Gymraeg ar y ddau ddiwrnod ysgol arall.

5. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Mae'n annhebyg y byddai unrhyw gwmni yn gweld gwerth masnachol i ddarparu gwasanaeth teledu Cymraeg i blant. Eisoes mae cwmni ITV wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu rhaglenni gwreiddiol i blant oherwydd nad oes budd masnachol. Gyda'r gwaharddiad ar hysbysebu rhai bwydydd a melysion yn ystod rhaglenni plant mae'r gwerth masnachol yn dirywio hyd yn oed yn fwy. Mae'n ddigon posib y gwelir llai o sianelau plant yn y dyfodol wrth i'r gwaharddiad hysbysebu frathu.

6. A allwch chi feddwl am ran-ddalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol ar y rhestr, ond beth am gysylltu â'r eisteddfodau bychain a mudiadau lleol eraill. Byddai hynny'n dod â'r ymgynghoriad i lawr i'r gymuned leol.

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Un effaith posibl o sefydlu sianel i blant fyddai colli carfan o wylwyr i S4C. Ar hyn o bryd gellir dychmygu sefyllfa lle mae rhieni di-Gymraeg yn dewis addysg Gymraeg i'w plant ac yn dewis gwylio rhaglenni Cymraeg i blant meithrin neu blant iau gyda'i gilydd ar S4C. Drwy wylio gyda'i gilydd mae potensial i'r rhieni ddod i wybod am weddill arlwy S4C a chaei eu denu i wylio rhaglenni eraill ar y sianel gyda chymorth is-deitlau. Mae yna berygl y gallai carfannau tebyg i'r rhain fethu dod ar draws arlwy S4C oni bai bod yna draws-hyrwyddo effeithiol.

Yn olaf, ym mharagraff 3.4.1.6, cyfeirir at y cwricwlwm cenedlaethol, ond nid oes dadansoddiad o ran darparu rhaglenni addysgol. A yw'n fwriad cynhyrchu rhaglenni i ysgolion? Pwy fydd yn darparu'r rhaglenni addysgol yng Nghymru? A fydd ysgolion yn gallu defnyddio'r adnodd?